MIDLAND YOUTH JAZZ ORCHESTRA

Os ydych yn chwilio am gyffro cerddorol, byddwch wrth eich bodd â'r 'big band' rhagorol hwn, a ddisgrifiwyd fel un o'r gorau yn y byd!

Bu MYJO yn ddiguro yng Nghystadleuaeth Genedlaethol 'Big Bands' y BBC am 25 mlynedd ac enillodd Gystadleuaeth Genedlaethol 'Big Bands' yr Iseldiroedd ddwywaith gan guro bandiau oedolion o'r Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Belg. Mae'r band wedi'i wobrwyo ddwywaith am Wasanaethau Eithriadol i Addysg Jazz ym Miami, Florida a Toronto, Canada, ac mae wedi rhannu llwyfan gyda rhai o enwau mawr byd jazz, fel yr Yellowjackets.

Mae'r band wedi perfformio ym mhedwar ban byd, mewn neuaddau a gwyliau mawr yn cynnwys Gŵyl Jazz enwog Montreux. Bu wrthi yn Neuadd Albert, Neuadd y Frenhines Elizabeth, Neuadd Symffoni Birmingham, y Barbican a Chlwb Ronnie Scott yn Llundain. Daeth llawer o gyn-chwaraewyr MYJO yn enwog yn eu hawl eu hunain, yn cynnwys y trombonydd o fri rhyngwladol, Mark Nightingale.

Mae'r gerddorfa wedi perfformio gyda llu o wahanol gerddorion gwadd fel Jamie Cullum, Elaine Delmar, Madeline Bell, y ddiweddar Marion Montgomery, Georgie Fame, Marlene VerPlanck, Jeff Hooper, Jacqui Dankworth, Lee Gibson a Gary Wilmott. Gall ymfalchïo hefyd ei fod wedi ymddangos gyda chwaraewyr dawnus fel Benny Carter, Arturo Sandoval,

Barney Kessel, Don Lusher, John Dankworth, Stan Tracey a llawer rhagor.

Mae CDs y Midland Youth Jazz Orchestra yn cynnwys Everything to Love, gyda'r trwmpedwr gwadd Bobby Shew, Flying Home, sy'n cynnwys nifer o glasuron adnabyddus, o Rhapsody in Blue gan Gershwin a Tail End Charlie gan Glenn Miller i Soul Bossa Nova gan Quincy Jones, Twist of the Wrist, a'u CD diweddaraf, Have You Heard.

Y trwmpedwr o fri, John Ruddick, yw cyfarwyddwr cerdd MYJO. Bu'n aelod o 'Big Band' y diweddar Don Lusher ac mae wedi ymddangos dro ar ôl tro gyda 'Big Band' y BBC, Cerddorfa Syd Lawrence, Fat Chops Big Band, a'r All Stars Big Band.

Mae John yn perfformio gyda'i bumawd jazz ei hunan ac mae'n unawdydd arbennig mewn sawl lle. Bu'n gweithio gyda'r cyfansoddwr ffilmiau Lalo Schifrin a'r diweddar George Shearing, ynghyd â Peggy Lee a Bruce Forsyth. Yn 2006, dyfarnwyd Doethuriaeth er Anrhydedd i John gan Brifysgol Birmingham am ei gyfraniad arbennig i fyd cerdd.

*"**Shattering talent -- played with a power and precision that would not have shamed Stan Kenton himself. Catch them if you can**."*- Godfrey Smith, Sunday Times

*"**Honestly, I haven't heard a better big band since the days of Herman, Ellington and Basie**"*- Digby Fairweather